OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 700 (Cy. 175)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Little Mill, man i’r Gorllewin o Frynbuga i Gylchfan Hardwick, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Mai 2021* |
| *Yn dod i rym* | *4 Mehefin 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A4042, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o’r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw’r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Little Mill, man i’r Gorllewin o Frynbuga i Gylchfan Hardwick, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021 a daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Mehefin 2021.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw cyfnodau ysbeidiol sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 4 Mehefin 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A4042 Casnewydd i'r Amwythig yn Sir Fynwy.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 162 o fetrau i'r gogledd o Gyffordd Little Mill yr A472 hyd at bwynt 40 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cylchfan Hardwick.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 28 Mai 2021

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru